Cofnodion cyfarfod y **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** a gynhaliwyd yn **Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, nos Lun, 8 Gorffennaf 2019** am **8:15p.m.**

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Stephen Beach, Ken Hawkins, Gavin Harris, John Wynne Hughes, Ian Lewney, Jabez Oakes, Robert Owen-Ellis a Heather Williams.

11. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd Ifan Wyn.

12. DATGAN BUDDIANNAU

Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

13. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 10 Mehefin 2019 yn gywir.

14. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

15. PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO

Adroddodd y Clerc y derbyniwyd y penderfyniad cynllunio a ganlyn gan Gyngor Sir Ddinbych: 02/2019/0355 – Ysgol Fonedd Rhuthun, Ffordd yr Wyddgrug, Rhuthun – Gosod 5 ystafell ddosbarth symudol fel un bloc, i'w defnyddio fel 5 ystafell ddosbarth dros dro – Caniatawyd 02/2019/0467 – 97 Stryd Mwrog, Rhuthun – Diwygiadau i'r ffenestri a chodi lefel y llawr er mwyn hwyluso cysylltiad draeniad a gyflwynwyd yng nghyswllt caniatâd cynllunio 02/2018/0306 – Cymeradwywyd.

16. CEISIADAU CYNLLUNIO

Ystyriodd y Pwyllgor y ceisiadau a ganlyn a gyflwynwyd am sylwadau gan Gyngor Sir Ddinbych. ***PENDERFYNWYD:*** *nad oedd unrhyw wrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio a ganlyn, yn ddarostyngedig i'r sylwadau isod.*

02/2019/0159 – Tir yn Fron Haul, Llanfwrog, Rhuthun
Trosi adeilad presennol yn siales, codi 3 siales newydd, adeiladu ffyrdd cysylltiedig, creu pwll, gosod draeniau a phlannu

02/2019/0211 – Yr Iard, Lôn Gwernydd, Rhuthun
Dymchwel yr uned storio bresennol a chodi uned storio bwrpasol (defnydd Dosbarth B8)

02/2019/0508 – Pennant, Bryn Goodman, Rhuthun
Codi garej ar wahân

02/2019/0514 – Y Bwthyn, Heol y Parc, Rhuthun
Codi estyiad ac addasiadau i'r annedd

02/2019/0500 – Tir oddi ar yr A525 rhwng Ocsiwn Rhuthun a Lôn Gwernydd, Rhuthun
Cais am ganiatâd cynllunio llawn ar gyfer adeiladu siop fwyd, uned gyflogaeth (defnydd Dosbarth B1/B2/B8) a maes parcio, tirlunio, gwsanaethau a mynediad cysylltiedig a chais am ganiatâd amlinellol ar gyfer datblygu unedau cyflogaeth (defnydd Dosbarth B1/B2/B8) gyda'r holl faterion wedi'u cadw'n ôl

02/2019/0517 – Tŷ Cefn, Llanfwrog, Rhuthun
Adeiladu sied storio amaethyddol a ffurfio trac cysylltiedig

17. YMGYNGHORIAD STRATEGAETH DDRAFFT A FFEFRIR CYNLLUN DATBLYGU LLEOL SIR DDINBYCH 2018-2033

Dosbarthwyd llythyr gan Gyngor Sir Ddinbych i'r aelodau, yn cynnwys gwybodaeth am ddyddiadau arddangosfeydd. Roedd yr aelodau'n bryderus am y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno sylwadau, sef 30 Awst, gan y byddai'r rhan fwyaf o Gynghorau Tref a Chymuned ddim yn cyfarfod bryd hynny. Gofynnodd yr aelodau am gysylltu gyda'r adran berthnasol i dynnu sylw at hyn a gofyn am estyniad.

PENDERFYNWYD: *cysylltu gyda'r Tîm Cynllunio Strategol i fynegi'r pryderon a nodwyd a gofyn am estyniad i'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno sylwadau.*

18. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD*: mai dyddiad y cyfarfod nesaf fydd nos Lun, 9 Medi 2019 am 8pm.*